

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Ddinbych

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Ddinbych i Isadrannau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Mae Sir Ddinbych yn bodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn erbyn hyn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Ddinbych 8 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 1 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Ddinbych wedi parhau i adeiladu ar ei gryfderau yn ystod ail flwyddyn y chweched fframwaith, gan ddarparu datganiad manwl a thrylwyr gyda thystiolaeth o gynllunio ofalus. Mae perfformiad o ran darparu hyfforddiant a mynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn parhau i fod yn uchel, gyda phwyslais cynyddol ar weithio mewn partneriaeth yn adlewyrchu'r nod strategol i lyfrgelloedd ddod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau cymunedol. Mae cau llyfrgelloedd er mwyn eu hailwampio yn dal i fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar lefelau defnydd ffisegol, ond bu gwelliant yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau digidol. Mae gwariant ar y gwasanaeth wedi gostwng eto yn 2018/19 yn sgil pwysau ar gyllidebau, ond mae'r gwasanaeth wedi cynllunio'n ofalus er mwyn targedu arbedion mewn meysydd nad ydynt yn effeithio ar wasanaeth uniongyrchol i gwsmeriaid. Mae ffocws strategol o'r newydd ar ddatblygu'r gweithlu a gwirfoddoli wedi cael effaith amlwg, gydag ymgynghoriad ar y gweill ar Strategaeth Llyfrgelloedd newydd ar gyfer 2019-22. Fodd bynnag, bydd cael yr adnoddau digonol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth gynnal ei gyflawniadau ac adeiladu arnynt, a pharhau i gyflawni'n effeithiol er budd ei gymunedau.

- Mae pob man gwasanaeth sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant i ddefnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi parhau i wella, ac mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu hefyd, gyda'r perfformiad o ran hyn bellach wedi cyrraedd y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau yn y llyfrgell wedi gwella eto yn 2018/19 hefyd, gan adlewyrchu cynnydd mewn gwaith partneriaeth fel rhan o'r gwasanaethau cymunedol ychwanegol a gynnigir.
- Mae ffigurau defnydd eraill wedi gostwng ychydig, a briodolir i'r penderfyniad i gau un llyfrgell fel rhan o raglen adnewyddu llyfrgelloedd Sir Ddinbych, ond mae e-lawrwythiadau wedi cynyddu'n sylweddol.
- Mae buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg yn dal yn uchel, gyda'r gwasanaeth yn cofnodi'r lefel uchaf o eitemau Cymraeg a fenthycir y pen o'r boblogaeth.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ychydig yn 2018/19, ond mae nifer y staff proffesiynol wedi cynyddu ac mae pob un o'r rolau proffesiynol / rheoli bellach wedi'u llenwi gan staff â chymwysterau priodol. Er na chyflawnir y targedau o ran hyn, mae Strategaeth i'r Gweithlu bellach ar waith gyda phwyslais o'r newydd ar ddatblygu'r staff a hyfforddiant proffesiynol.

- Mae cyfanswm y gwariant referniw wedi gostwng ymhellach ers 2017/18, ond mae gwariant y pen o'r boblogaeth ychydig uwchlaw'r lefel ganolrifol.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Ddinbych yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn bellach, yn sgil cyhoeddi ei Strategaeth Llyfrgelloedd ddrafft ar gyfer 2019-22, ond nodir y bydd angen cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn llunio'r fersiwn derfynol. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo o'r newydd i broffesiynoli ei weithlu, gan sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi defnyddwyr llyfrgelloedd ar gael iddo. Mae cysylltiadau â phartneriaid iechyd a lles hefyd wedi cael eu blaenoriaethu er mwyn ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau sydd ar gael yn y maes hwn.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 1 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau'r pen o'r boblogaeth	x	

DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	✓	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae perfformiad Sir Ddinbych wedi gwella ychydig yn 2018/19 gyda'r gwasanaeth yn cyflawni'r ddau darged caffael ar gyfer DA 10.

### 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Sir Ddinbych ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018; nodir bod y fethodoleg wedi defnyddio ffurflenni ar-lein, ac fel y cyfryw efallai nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â'r rhai o'r pumed fframwaith. Nid yw'r awdurdod wedi cynnal arolwg i blant eto o fewn y fframwaith presennol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	78%	14/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	94%	=13/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Ddinbych dair astudiaeth achos o'r fath:

- Dileu Rhwystrau - gwerth gofod y llyfrgell i un defnyddiwr anabl, fel man sy'n cynnig annibyniaeth, cyswllt cymdeithasol, a mynediad at wybodaeth a darllen er mwynhad iddi. Mae ei hadborth yn rhoi pwys arbennig ar y cymorth y mae staff y llyfrgell yn ei roi iddi, a'u hyblygrwydd o ran dileu rhwystrau posibl i fynediad iddi.
- Cymorth Awtistiaeth - gofod llyfrgell sy'n cynnig amgylchedd cymunedol cyfarwydd a diogel i ddarparu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru, gan gynnwys sesiynau galw heibio, apwyntiadau unigol, a digwyddiadau llesiant a chymunedol ehangach.
- Cefnogi Pobl Hŷn – gweithio gyda Llyw-wyr Cymunedol Lleol i helpu pobl hŷn i ddefnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref. Yn achos un ddynes hŷn â chyflyrau iechyd cyfyngol y cyflwynwyd y gwasanaeth iddi mae wedi cynnig byd newydd o adnoddau sain iddi; mae adborth arall yn cyfeirio at y gwasanaeth hollbwysig a ddarperir, pwysigrwydd llyfrau sain, a chyfraniad gwerthfawr staff y gwasanaeth.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Ddinbych ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	55%	14/15	24%	82%	96%	58%
c) iechyd a lles	44%	14/15	33%	62%	94%	58%
d) lle diogel a chroesawgar	93%	14/15	90%	97%	100%	93%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	82%	13/14	81%	91%	98%	90%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	96%	12/14	93%	99%	100%	98%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	65%	13/13	65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	94%	=12/14	93%	97%	99%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b		8.5	9.3	9.5	8.7
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	28	=13/22	13	30	208	23
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	433	1/22	15	199	433	385
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	370	6/22	91	295	689	335

DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,216*	8/22	2,596	3,969	7,170*	4,321
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	1,318	6/22	345	885	2,205	1,255
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	192	5/22	58	150	251	202
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth <sup>2</sup>	1,424	1/22	95	602	1,424	1,462
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth <sup>3</sup>	10	10/22	5	10	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	23%	13/22	14%	25%	63%	25%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	44	8/21	3	30	214	28
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,326	14/21	90	1,477	9,806	529
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£12,361	10/22	£7,181	£12,145	£19,449	£14,073
b) % ar staff	61%	12/22	47%	62%	78%	60%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	15/22	8%	13%	21%	9%
% ar offer ac adeiladau	5%	9/22	0.4%	4%	25%	7%
% ar gostau gweithredol eraill	23%	9/22	0.3%	16%	37%	24%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£5,740	3/22	£0	£467	£8,829	£2,699
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£1.80	12/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.92
DA 16 – Oriau agor <sup>4</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

<sup>2</sup> fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

<sup>3</sup> fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl <sup>4</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Sir Ddinbych ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018, ond nodir bod y fethodoleg wedi defnyddio ffurflenni ar-lein ac wedi targedu sylfaen ymateb ehangach, ac felly efallai nad oes modd cymharu'r canfyddiadau'n uniongyrchol â'r rhai a gafwyd o dan y pumed fframwaith. Mae ffigurau ar gyfer boddhad cwsmeriaid yn dal ar lefel uchel, ond yn amlwg is ar gyfer darpariaeth TG, ac nid yw'r awdurdod wedi cynnal arolwg i blant eto o fewn y fframwaith presennol. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog wedi parhau i ddarparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol ac iechyd a lles, ond arweiniodd methodoleg yr arolwg at ganlyniadau is o ran hyn nag y gellid bod wedi'i ddisgwyl. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant i ddefnyddwyr a drefnwyd ymlaen llaw wedi parhau i wella, ac mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu hefyd (sy'n adlewyrchu'r twf yn y galw am

gymorth y staff gyda TG), gyda'r perfformiad o ran hyn bellach wedi cyrraedd y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

### **3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)**

Mae Sir Ddinbych yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau yn y llyfrgell wedi gwella eto yn 2018/19 hefyd, gan adlewyrchu cynnydd mewn gwaith partneriaeth fel rhan o'r gwasanaethau cymunedol ychwanegol a gynigir. Er bod ffigurau ar gyfer llawer o feysydd eraill o ddefnyddio llyfrgelloedd wedi gostwng ers 2017/18, gellir priodoli hyn yn rhannol i gau un man gwasanaeth dros dro (am gyfnod o dri mis). Yn debyg i'r rhan fwyaf o'r awdurdodau eraill yng Nghymru, mae rhith-ymweliadau wedi cynyddu, a hefyd lawrlwythiadau electronig, lle mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 61%.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>i</sup>**

Mae gwariant ar adnoddau wedi cynyddu yn 2018/19, gyda'r gyllideb ar gyfer adnoddau yn cael ei gwario'n llawn, ond nid yw'r naill darged caffael na'r llall o dan DA 9 yn cael eu cyflawni. Mae buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg wedi cynyddu hefyd, ac mae'r holl ofynion ar gyfer DA 10 wedi'u bodloni ac adlewyrchir y perfformiad o ran hyn yn nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir, sef yr uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru bellach. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi cynyddu ychydig ers 2017/18, ond mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi lleihau ychydig, ond nodir bod lefelau defnyddio yn sylweddol uwch mewn canghennau sy'n gwasanaethu ardaloedd mwy poblog. Mae gofynion o ran cyflenwi ceisiadau, a gofnodir o fewn yr awdurdod bellach yn hytrach na ledled Gogledd Cymru, yn cael eu bodloni'n llawn.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng ychydig yn 2018/19 gyda phwysau ar y gyllideb yn arwain at ddileu rhai swyddi a gweithio llai o oriau'n wirfoddol. Fodd bynnag, mae nifer y staff proffesiynol wedi cynyddu, gyda'r holl swyddi perthnasol bellach wedi'u llenwi gan staff cymwysedig; nid yw'r targedau o ran hyn yn y naill achos na'r llall yn cael eu cyflawni. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle ac mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion o ran neilltuo amser ar gyfer datblygiad proffesiynol, a hynny ar lefel uwch, yn sgil rhoi ei Strategaeth i'r Gweithlu ar waith a phwyslais o'r newydd ar hyfforddiant proffesiynol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gweld cynnydd yng nghyfraniad gwirfoddolwyr dros 2018/19, yn unol â'i Strategaeth Wirfoddoli, gyda 44 o unigolion yn cyfrannu dros 30 awr yr un i'r gwasanaeth ar gyfartaledd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ymhellach ers 2017/18, sy'n adlewyrchir pwysau ar y gyllideb, ond mae gwariant y pen o'r boblogaeth yn dal ychydig uwchlaw'r lefel ganolrifol. Nodir bod y gwasanaeth wedi cynllunio'n ofalus i dargedu arbedion mewn meysydd nad ydynt yn effeithio ar wasanaethau uniongyrchol i gwsmeriaid. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau i gynyddu, heb unrhyw achosion o amharu ar y gwasanaeth sefydlog na'r gwasanaeth cartref.



## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae naratif Sir Ddinbych yn ailddatgan ei gyfraniad i ystod o flaenoriaethau strategol perthnasol, gan gynnwys: y blynyddoedd cynnar a llythrennedd; tai; gofal cymdeithasol; iechyd meddwl; sgiliau a chyflogadwyedd; cymorth i'r Gymraeg; a chydnerthu cymunedol. Cyfeirir at ddatblygiadau newydd o ran rôl y gwasanaeth i gefnogi Cynllun Gweithredu Dementia yr awdurdod.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, nodir cyfraniad y gwasanaeth i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2018-2022 Sir Ddinbych unwaith eto. Cyfeirir at weithgareddau cysylltiedig a datblygiadau o Gynllun Busnes y Gwasanaeth Cyfathrebu â Chwsmeriaid a Marchnata, gan gynnwys: datblygu'r ddarpariaeth iechyd a lles ymhellach, rhoi strategaeth cyfathrebu a marchnata ar waith, a chyflawni strategaethau gwirfoddoli a datblygu'r gweithlu. Hefyd, amlinellir cynlluniau i adolygu'r Gwasanaeth Llyfrgell Cartref er mwyn rhoi cymaint o gymorth â phosibl i oedolion sy'n agored i niwed a datblygu cyfleusterau llyfrgell ymhellach drwy gysyniad Lolfa Llyfrgell, ochr yn ochr ag ymrwymiad i gyflawni'r Strategaeth Llyfrgelloedd newydd ar gyfer 2019-22.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Ddinbych wedi parhau i adeiladu ar ei gryfderau yn ystod ail flwyddyn y chweched fframwaith, gan ddarparu datganiad manwl a thrylwyr gyda thystiolaeth o gynllunio ofalus. Mae perfformiad o ran darparu hyfforddiant a mynychu digwyddiadau a gweithgareddau yn parhau i fod yn uchel, gyda phwyslais cynyddol ar weithio mewn partneriaeth yn adlewyrchu'r nod strategol i lyfrgelloedd ddod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau cymunedol. Mae cau llyfrgelloedd er mwyn eu hailwampio yn dal i fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar lefelau defnydd ffisegol, ond bu gwelliant yn y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau digidol. Mae gwariant ar y gwasanaeth wedi gostwng eto yn 2018/19 yn sgil pwysau ar gyllidebau, ond mae'r gwasanaeth wedi cynllunio'n ofalus er mwyn targedu arbedion mewn meysydd nad ydynt yn effeithio ar wasanaeth uniongyrchol i gwsmeriaid. Mae ffocws strategol o'r newydd ar ddatblygu'r gweithlu a gwirfoddoli wedi cael effaith amlwg, gydag ymgynghoriad ar y gweill ar Strategaeth Llyfrgelloedd newydd ar gyfer 2019-22. Fodd bynnag, bydd cael yr adnoddau digonol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth gynnal ei gyflawniadau ac adeiladu arnynt, a pharhau i gyflawni'n effeithiol er budd ei gymunedau.

---

<sup>1</sup>Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.